


bwyd
Caerdydd



Bwyd Da Caerdydd

Gŵyl Hydref 2026


RHAGLEN GYHOEDDUS

Gŵyl Fwyd Sain Ffagan. Ardal Bwyd Da

Cynhelir gan: Bwyd Caerdydd

12-13 Medi, 10.30yb-4.30yp

Rhaglen: <https://amgueddfa.cymru/digwyddiadau/gwyl-fwyd/rhaglen/>



Diwrnod Hwyl a Bwyd!

Cynhelir gan: Pantri Trowbridge

Dydd Sadwrn 19 Medi, 11yb-3yp

Canolfan Gymunedol Trowbridge, CF3 1T

Mae Pantri Trowbridge yn cynnal Diwrnod Hwyl a Bwyd. Mae gwahoddiad i bawb i ddathlu pen-blwydd y Pantri yn 5 oed a mwynhau gweithgareddau gyda thema bwyd! Darperir byrbrydau a diodydd poeth ac oer.

Prynhawn o Fwyd

Cynhelir gan: Grŵp Ymddiriedolaeth Gymunedol Alhusna (gwahoddiad yn unig)

Dydd Sadwrn 19 Medi, 2-6yb

Cae Anderson, CF24 OHH

Mae Ymddiriedolaeth Gymunedol Alhusna yn cynnal “Prynhawn o Fwyd”, digwyddiad awyr agored AM DDIM fel rhan o Wyl Hydref Bwyd Da Caerdydd. Cynhelir y digwyddiad ym Mharc Lleol Cae Anderson rhwng 2 a 6pm i rannu, mwynhau bwyd tymhorol diwylliannol; a chael awgrymiadau ar fwyta bwyd iach. Mae gwahoddiad i deuluoedd lleol gyda’u plant sy’n byw yn benodol yn ardal CF24 a’r rhai o gefndir ffoaduriaid a chymunedau du a lleiafrifoedd ethnig yn ardal y gyndogaeth leol i ymuno.





Dathlu 10 Mlynedd y Prosiect Partner Geni

Cynhelir gan: The Birth Partner Project

Dydd Mercher 23 Medi, 10yb-2yp

Canolfan y Drindod, CF24 1LE

Mae'r Prosiect Partner Geni yn troi'n 10 oed ac i ddathlu rydym yn gwahodd ein cymuned o Famau, Gwirfoddolwyr a Chefnogwyr i ymgynnull i rannu bwyd blasus a myfyrio ar y 10 mlynedd diwethaf a chyd-lunio sut rydym yn symud i'r 10 mlynedd nesaf.

Mae'r Prosiect Partner Geni yn cefnogi Ceiswyr Noddfa yng Nghaerdydd a fyddai'n esgor ar eu babis ar eu pen eu hunain fel arall ac mae Climate Cooks yn grŵp o fenywod sydd â phrofiad byw o'r system lloches, sy'n mwynhau rhannu eu treftadaeth a'u traddodiad coginio. Ymunwch â ni o amgylch y bwrdd i rannu bwyd da a dathlu ein cymuned!

birthpartnerproject.org

Os hoffech fynychu, cysylltwch â: info@birthpartnerproject.org

Dathlu'r Hydref Yn Y Rhandir

Cynhelir gan: CBC Breathe Creative a CBC Growing Green

Dydd Gwener 25 Medi, 11yb-4yp

Rhandiroedd Lleckwith Drovers, Heol Bessemer CF11 8BA

Mae Breathe Creative a Growing Green yn dathlu gyda Gŵyl yr Hydref yn ein lleiniau rhandir ddydd Gwener 25 Medi. Ymunwch â ni ar y rhandir i ddathlu tymor y Cynhaeaf, helpwch ni i droi ein cnwd o ffrwythau a llysiau yn sudd, cyffeithiau a siytni. Dysgwch am ein cyfleoedd gwirfoddoli a sut i dyfu eich bwyd eich hun. Mwynhewch ddiwrnod llawn o weithdai bwyd da, cerddoriaeth, drymio, canu a chelf a chrefft.


www.breathecreative.org.uk

Diwrnod yr Afal

Cynhelir gan: Orchard Cardiff

Dydd Sadwrn 29 Medi, 11yb-3yp

Global Gardens, CF14 3NE



Ymunwch ag Orchard Cardiff a Global Gardens ar gyfer ein dathliad o bopeth sy'n ymwneud ag afalau. Mae'n ddigwyddiad sy'n llawn hwyl i'r teulu, ac rydym yn eich gwahodd i fod yn rhan ohono. Dyma flas o'r gweithgareddau: Gwneud eich sudd eich hun! Adrodd straeon! Profi afalau! Bod yn greadigol gyda thoriadau lino ar thema afalau wedi'u torri ymlaen llaw! Mwynhau danteithion blasus! Archwilio'r ardd a'r cwis!

orchardcardiff.co.uk

Dathliad Pen-blwydd y Global Gardens yn 10 oed

Cynhelir gan: Prosiect Gerddi Byd-eang

Dydd Sadwrn 26 Medi, 12-5yp

Global Gardens, CF14 3NE

Ymunwch â ni i ddathlu deng mlynedd o arddio cymunedol yn y Global Gardens. Byddwn yn tanio ein popty cob, yn cynnal micro-dwmpath gardd, gweithdai creadigol rhyngweithiol, diodydd gardd di-alcohol a gweithgareddau sy'n addas i'r teulu - a mwy!

globalgardensproject.co.uk

Dolen archebu: <https://www.eventbrite.co.uk/e/1992746659903?aff=oddttdtcreator>



Pryd Bwyd Cymunedol

Cynhelir gan: Gweithredu yng Nghaerau a Threlái / HETRA

Dyddiad ac amser pryd bwyd 1: Dydd Mercher 30 Medi, 1yp

Canolfan Gymunedol Ystum Taf, CF14 2LR

Dyddiad ac amser pryd bwyd 2: 30 Hydref, 5.30-8yp

Ystâd Llwynceilyn

Bydd tîm lles YourSpace a Chymdeithas Tenantiaid a Phreswylwyr Ystâd Llwynceilyn yn cynnal dau bryd bwyd cymunedol sydd wedi'u cynllunio i ddod â chymdogion at ei gilydd a chryfhau cysylltiadau lleol. Bydd gweithwyr datblygu cymunedol a thrigolion lleol yn cydweithio i ddewis bwydlen amlddiwylliannol gan ddefnyddio cynnyrch a dyfwyd yn lleol yn Ystâd Llwynceilyn a chynhwysion a brynwyd o siopau lleol. Bydd y prydau bwyd yn cael eu paratoi a'u rhannu yn y 2 leoliad, gan ddathlu bwyd lleol, diwylliant a chydweithrediad.

Mae'r rhaglen hon yn cefnogi rhwydweithiau cymunedol cryf, cymunedau ethnig amrywiol ac yn annog rhannu sgiliau, ac yn creu mannau croesawgar i bobl gyfarfod, bwyta a chysylltu.

yourspace.aceplace.org

Noson Cwis yn y Pantri

Cynhelir gan: Pantri Tremorfa

Dydd Mercher 30 Medi 2026, 6-9yp

Neuadd Gymunedol Tremorfa, CF24 2QZ

Dewch i ymuno â ni am noson cwis gyda bwyd a chwerthin. Pryd o fwyd wedi'i goginio'n ffres i ni i gyd ei rannu, llawer o rowndiau gwahanol a ffeithiau bwyd hwyliog.

facebook.com/tremorfapantry



Barbeciw Cymunedol Kenneth Treasure Court

Cynhelir gan: Cymdeithas Tai United Welsh

Dydd Iau 1 Hydref

Kenneth Treasure Court, CF3 5UD

Ymunwch â ni ar gyfer Barbeciw Cymunedol Kenneth Treasure Court! Mwynhewch fwyd tymhorol blasus, cwmnïaeth a chyfeillgarwch â phobl hŷn, a'r cyfle i gwrdd â chymdogion, gwneud ffrindiau newydd, a dathlu ein cymuned gyda'n gilydd. Mae croeso i bawb ddod draw, rhannu bwyd da, a darganfod ffyrdd syml o fwyta'n dda a chefnogi Caerdydd iachach, mwy cynaliadwy.

unitedwelsh.com

Dathliad Bwyd Cymunedol: Blasu a Dysgu Blasau Indiaid

Cynhelir gan: Pedal Power Caerdydd

Dydd Sadwrn 3 Hydref, 11yb-2yp

Caffi Pedal Power, CF11 9LB

Ymunwch â ni am ddathliad cymunedol am ddim o fwyd llysieuol Indiaidd yng Nghaffi Cymunedol Pedal Power Caerdydd. Mwynhewch arddangosiadau coginio byw, rhowch gynnig ar wneud eich bara naan eich hun, blasu prydau llysieuol blasus, a mynd â ryseitiau hawdd, iach ac awgrymiadau ar ddefnyddio sbeisys i ychwanegu blas at brydau bob dydd. Mae croeso i bawb!

cardiffpedalpower.org/cy



Cinio Cymunedol Eglwys Sant Philip

Cynhelir gan: Eglwys Sant Philip

Dydd Mercher 21 Hydref, 12yp

Eglwys Sant Philip, Tremorfa, CF24 2QZ

Cinio am ddim yn Eglwys Sant Philip, Tremorfa, i'n cymuned leol. Dewch draw am ginio a sgwrs, ynghyd ag offer coginio am ddim a ryseitiau syml i'w coginio gartref. Mae croeso i bawb!

stmarks-cardiff.co.uk

Gŵyl Fwyd a Hwyl yr Hydref Glan yr Afon

Cynhelir gan: Canolfan Datblygu Cymunedol De Glan-yr-afon

Dydd Mercher 28 Hydref, 11yb-2yp

Canolfan Stryd Wyndham, CF11 6DQ

Mae croeso i chi ymuno â'n Gŵyl Fwyd a Hwyl yr Hydref yng Nghanolfan Stryd Wyndham! Gobeithio y byddwch chi'n mwynhau diwrnod llawn arddangosiadau bwyd blasus, a chelf a chrefft creadigol i'r gymuned gyfan. Dewch at ein gilydd i ddathlu blasau'r hydref, dysgu rhywbeth newydd, a rhannu pryd blasus o fwyd gyda theulu, ffrindiau, cymdogion a'n cymuned.

srcdc.org.uk

Caffi Bwydydd Anghofiedig

Cynhelir gan: Gwirfoddoli Cymunedol Sblot

Dydd Gwener 30 Hydref, 1-3yp

Yr Hen Ganolfan STAR - Heol y Sblot, Y Sblot, Caerdydd, CF24 2BZ

Mae Caffi Bwydydd Anghofiedig yn ddigwyddiad cymunedol am ddim sy'n dathlu potensial blasus llysiau tymhorol sy'n cael eu hanwybyddu yn aml. Dewch draw i fwynhau samplau blasu am ddim, casglu ryseitiau hawdd, rhad a darganfod ffyrdd syml o droi llysiau fforddiadwy yn brydau iach, hafaidd wrth rannu syniadau â'ch cymdogion.

splottcommunityvolunteers.co.uk



Gwledd Gymunedol y Cynhaeaf: Dod â Threlái a Chaerau Ynghyd Trwy Fwyd Da

Cynhelir gan: Bwrdd Partneriaeth Dysgu Trelái a Chaerau (gwahoddiad yn unig)

Dyddiad ac amser: I'w gadarnhau

Ymunwch â ni ar gyfer Gwledd Gymunedol y Cynhaeaf, dathliad o fwyd tymhorol, ysbryd cymunedol a diwylliannau lleol o bob rhan o Drelái a Chaerau. Bydd cyfle i deuluoedd dyfu, coginio, rhannu a mwynhau bwyd iach, fforddiadwy gyda'i gilydd drwy ystod o weithgareddau, gweithdai a gwledd gymunedol llawn hwyl. Gyda'n gilydd, byddwn yn adeiladu cysylltiadau cryfach, datblygu sgiliau bwyd ac yn dathlu pŵer bwyd da i ddwyn cymunedau ynghyd.

Melino Cynhaeaf a Hyb Pobi Cymunedol

Cynhelir gan: Y Drindod (gwahoddiad yn unig)

Dyddiad ac amser: I'w gadarnhau

Ymunwch â ni yn y pod gwledig ar gyfer ein gweithdai Melino Cynhaeaf a Phobi Cymunedol cyffrous! Darganfyddwch y grefft draddodiadol o falu grawn cyflawn yn flawd ffres, maethlon a dysgwch sut i bobi eich bara blasus, cost isel eich hun o'r dechrau. Mae'n hollol am ddim i fynychu, felly dewch draw i ddysgu sgil newydd, mwynhau byrbrydau ffres iach, a chysylltu â'ch cymdogion.



DIGWYDDIADAU YSGOLION

(gwahoddiad yn unig i bob un)

Dathliad Cynhaeaf Croeso i'r Blynyddoedd Cynnar

Cynhelir gan: Ysgol Gynradd Meadowlane

Wythnos yn dechrau dydd Llun 21 Medi

Ymunwch â ni ar gyfer ein Dathliad Cynhaeaf Croeso i'r Blynyddoedd Cynnar, lle gall plant a theuluoedd archwilio blasau'r hydref drwy weithgaredd blasu bwyd tymhorol a gweithgaredd ymarferol gwneud cawl. Dewch at eich gilydd i ddarganfod llysiau'r cynhaeaf, creu cawl iach blasus a mwynhau cyfle croesawgar llawn hwyl i gwrdd â theuluoedd eraill a staff yr ysgol.

Sesiwn Deuluol Bwyd a Hwyl y Cynhaeaf

Cynhelir gan: Ysgol Gynradd Oakfield

Wythnos yn dechrau dydd Llun 21 Medi

Ymunwch â ni am Sesiwn Deuluol Bwyd a Hwyl y Cynhaeaf llawn hwyl, lle gallwch brofi eich blasbwyntiau gyda gweithgaredd blasu bwyd heb allu eu gweld, mwynhau gemau ar thema'r cynhaeaf a bod yn greadigol drwy brintio gyda thatws. Bydd pob teulu yn derbyn bag o ffrwythau a llysiau tymhorol hefyd gyda syniadau am ryseitiau syml i fynd adref, gan eich helpu i barhau â hwyl y cynhaeaf a bwyta'n iach gartref.



Harmonïau'r Cynhaeaf

Cynhelir gan: Ysgol Gynradd Windsor Clive

Dydd Iau 15 Hydref, 3-4yp

Fel rhan o Wyl Hydref 2026 Bwyd Caerdydd, rydym yn cynnal caffi a sesiwn canu am ddim ar gyfer cymuned ein hysgol.

Hoffem eich gwahodd chi, eich plant, neiniau a theidiau ac aelodau'r teulu i ymuno â ni am rwyfaint o fwyd a cherddoriaeth. Dewch draw i fwyta amrywiaeth o wahanol fwydydd – mae'r canu yn ddewisol!



Diwrnod Cogyddion Bach Herbie a Gwên Fawr

Cynhelir gan: Ysgol Gynradd Herbert Thompson

Dyddiad ac amser: I'w gadarnhau


Ymunwch â ni ar gyfer Diwrnod Cogyddion Bach Herbie a Gwên Fawr, digwyddiad hwyliog a chroesawgar i deuluoedd yn ein cymuned. Cymerwch ran mewn gweithgareddau coginio ymarferol gan ddefnyddio cynhwysion syml, tymhorol, ochr yn ochr â sesiynau aros a chwarae i blant ifanc. Dewch at eich gilydd i goginio, bwyta, chwarae a chysylltu mewn lleoliad meithrinfa gyfeillgar.

Gwledd Gymunedol Hywel

Cynhelir gan: Ysgol Gynradd Hywel Dda

Dyddiad ac amser: I'w gadarnhau

Ymunwch â ni ar gyfer Gwledd Gymunedol Hywel sy'n ddathliad hwyliog, ymarferol o dyfu, coginio a rhannu bwyd tymhorol blasus. Gallwch ddisgwyl arddangosiadau blasus, gweithgareddau sy'n addas i'r teulu a digon o gyfleoedd i ddysgu sgiliau syml. Dewch draw, cwrdd â'ch cymdogion a mwynhau diwrnod llawn o gysylltiad cymunedol a bwyd da.



Dathliad Cynhaeaf Pencaerau

Cynhelir gan: Ysgol Gynradd Pencaera

Hydref (i'w gadarnhau)

Rydym wedi cyffroi i ddathlu'r Cynhaeaf gyda'n plant Meithrin a Derbyn. Bydd y digwyddiad yn cynnwys gweithgareddau gwneud bwyd, gan roi cyfle i blant greu a mwynhau prydau bwyd tymhorol gyda'i gilydd. Bydd yn ddathliad llawen o'n teulu cymunedol lleol, a'r ffrwythau a llysiau tymhorol sy'n newid.

Nodyn ar gyfer pob digwyddiad: gall manylion newid.





bwyd
Caerdydd

**Am ragor o wybodaeth, ewch i
wefan Bwyd Caerdydd.**